# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| Adnodd/Dolen | Ystod oedran | Statudol/Arferion Gorau/Gwybodaeth? | Ar gyfer pwy? | Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | Pa ddogfennau eraill sy'n gweitho'n dda gyda'r adnodd hwn? |
|---|---|---|---|---|---|
| <br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru | 0-5 oed | Arferion Gorau | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu<br>• Penaethiaid | Dogfen sy'n esbonio'r syniadau allweddol a ddylai arwain ysgolion a lleoliadau i wella eu harferion. Mae'n helpu ymarferwyr i:<br>• sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt<br>• cefnogi datblygiad cyffredinol pob plentyn, gan gynnwys twf corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol<br>• cynllunio, cynnal ac adolygu gweithgareddau sy'n gweithio'n dda<br>• myfyrio ar eu dysgu<br>• helpu plant i bontio'n esmwyth rhwng y cartref, yr ysgol a lleoliadau eraill<br>• nodi'r hyn sydd ei angen arnynt i ddysgu a gwella'n broffesiynol<br>• defnyddio dulliau hunanwerthuso ac ansawdd i barhau i wella | Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Beth yw hawliau plant?<br>I ymarferwyr gefnogi rhieni:<br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr<br>Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn |
| <br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru | 0-5 oed | Arferion Gorau | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu<br>• Penaethiaid | Gall y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar helpu unigolion a thimau i ystyried ansawdd eu darpariaeth chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar.<br>Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddogfennau i helpu i hunanwerthuso a myfyrio, cynllunio a monitro ar gyfer gwella ansawdd yn barhaus. Gellir defnyddio'r Pecyn Cymorth mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn unigol, at ddibenion hunanfyfyrio a gwybodaeth, gydag eraill i fyfyrio ar ymarfer a'i gymedroli a hefyd er mwyn cefnogi a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru. | Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Beth yw hawliau plant?<br>I ymarferwyr gefnogi rhieni:<br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr<br>Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn |

# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Llywodraeth Cymru
Welsh Government






| Adnodd/Dolen | Ystod oedran | Statudol/Arferion Gorau/Gwybodaeth? | Ar gyfer pwy? | Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | Pa ddogfennau eraill sy'n gweitho'n dda gyda'r adnodd hwn? |
|---|---|---|---|---|---|
| <br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru | 0-3 oed | Arferion Gorau | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>Gall y ddogfen hon hefyd fod o ddiddordeb i:<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu | Mae'r Llwybrau Datblygu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddatblygiad plant a'r ffordd orau o'u cefnogi i dyfu a datblygu yn briodol ar gyfer eu cam datblygu.<br>Gellir eu defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (Fframwaith Ansawdd) i'n helpu wrth gynllunio profiadau ystyrlon sy'n ymateb i anghenion a diddordebau datblygol plant.<br>Maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac mae cysylltiad agos rhyngddynt hwy ag egwyddorion allweddol datblygiad plant. | Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Beth yw hawliau plant?<br>I ymarferwyr gefnogi rhieni:<br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr<br>Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn |
| <br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir | 3-4 oed | Nid oes unrhyw ddyletswydd ar leoliadau i gynllunio cwricwlwm. Yn lle hynny, mae'r Ddeddf (adran 13) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm sy'n addas i'w ddefnyddio mewn lleoliadau.<br>Er y gallai fod yn fanteisiol i wneud hynny, nid yw'n ofynnol i leoliadau ddefnyddio'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gallant ddatblygu un eu hunain gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cysyniadau a'r gofynion gorfodol fel y nodir yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru. | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Gall y ddogfen hon hefyd fod o ddiddordeb i:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu | Mae cysylltiad agos rhwng y cwricwlwm hwn a'r egwyddorion datblygiad plant, yn ogystal â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y chwe maes dysgu a phrofiad.<br>Mae'n darparu ar gyfer dysgu eang a dwfn mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Dylid defnyddio'r cwricwlwm hwn ynghyd â'ch gwybodaeth a'ch profiad, i ystyried ac ymateb i anghenion unigol y plant yn eich lleoliad.<br>Bydd o gymorth wrth gynllunio i sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol, sy'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer pob plentyn. | Dysgu proffesiynol: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau<br>Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Beth yw hawliau plant? |

# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| Adnodd/Dolen | Ystod oedran | Statudol/Arferion Gorau/Gwybodaeth? | Ar gyfer pwy? | Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | Pa ddogfennau eraill sy'n gweitho'n dda gyda'r adnodd hwn? |
|---|---|---|---|---|---|
|   Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir | 3-4 oed | Mae dyletswydd ar leoliadau i wneud trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt, ac i roi'r trefniadau hynny ar waith. Gall lleoliadau fabwysiadu'r trefniadau asesu y mae Gweinidogion Cymru wedi'u darparu i gyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol hon. Os ydynt yn cynllunio eu trefniadau eu hunain, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn Crynodeb o'r ddeddfwriaeth. | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Gall y ddogfen hon hefyd fod o ddiddordeb i:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu | Mae'r trefniadau hyn yn amlinellu egwyddorion a dibenion allweddol asesu ac maent wedi'u cynllunio i gefnogi cynnydd y plentyn unigol.<br>Maent yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer trefniadau asesu yn y dyfodol, gan gynnwys prosesau allweddol fel:<br>• meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd<br>• cyfnodau pontio ar hyd y continwwm rhwng 3 ac 16 oed<br>• cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr<br>Dylech ddefnyddio'r trefniadau hyn, ynghyd â'ch gwybodaeth a'ch profiad, i ystyried ac ymateb i anghenion unigol y plant yn eich lleoliad. | Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Dysgu proffesiynol: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
| Galluogi dysgu – Hwb (llyw.cymru) | 3-16 oed | | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Ysgolion<br>• Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>• Ysgolion arbennig<br>• Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion<br>Gall y ddogfen hon hefyd fod o ddiddordeb i:<br>• Ymarferwyr gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Awdurdodau lleol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. | Datblygwyd y canllawiau galluogi dysgu i helpu uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm sy'n addysgegol briodol ar gyfer pob dysgwr.<br>Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar yr egwyddorion allweddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau dysgu cyfannol ac ystyrlon i bob dysgwr. Yn greiddiol i hyn mae tair 'elfen':<br>• oedolion sy'n galluogi dysgu<br>• profiadau sy'n ennyn diddordeb<br>• amgylcheddau effeithiol<br>Wrth gynllunio cwricwlwm, mae gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant yn hanfodol. Dylai'r broses addysgu a dysgu gynnwys canolbwyntio ar feysydd traddodiadol datblygiad plant, a fynegir fel y pum llwybr datblygiadol:<br>• Perthyn<br>• Archwilio<br>• Cyfathrebu<br>• Datblygiad corfforol<br>• Lles | Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau<br>Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Dysgu proffesiynol:Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir<br>Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (llyw.cymru)<br>Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Beth yw hawliau plant? |

# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

| Adnodd/Dolen | Ystod oedran | Statudol/Arferion Gorau/Gwybodaeth? | Ar gyfer pwy? | Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | Pa ddogfennau eraill sy'n gweitho'n dda gyda'r adnodd hwn? |
|---|---|---|---|---|---|
| <br>Beth yw hawliau plant? | 0-5 oed | Arferion Gorau | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu<br>• Penaethiaid | Gwybodaeth i ymarferwyr ar hawliau plant o safbwynt plentyn 0 i 5 oed.<br>Gellir ei arddangos mewn ysgol neu leoliad. Gall helpu ymarferwyr i ddeall hawliau plant o safbwynt baban neu blentyn ifanc. | Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru<br>Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3 |
| 4 Taflen<br> <br> <br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr | 0-5 oed | Arferion Gorau | Ymarferwyr sy'n gweithio mewn:<br>• Lleoliadau gofal plant<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg<br>• Athrawon mewn ysgolion<br>• Cynorthwywyr addysgu<br>• penaethiaid | Gwybodaeth i rieni/gofalwyr am hawliau plant o safbwynt plentyn 0 i 5 oed.<br>Gellir ei arddangos mewn ysgol neu leoliad. Gall helpu ymarferwyr i drafod gyda rhieni/gofalwyr am eu dealltwriaeth o hawliau plant o safbwynt baban neu blentyn ifanc. | Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn |

# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

| Adnodd/Dolen | Ystod oedran | Statudol/Arferion Gorau/Gwybodaeth? | Ar gyfer pwy? | Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon | Pa ddogfennau eraill sy’n gweitho’n dda gyda’r adnodd hwn? |
|---|---|---|---|---|---|
|   Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn (pobplentyn.cymru) | Cyn geni i enedigaeth | Gwybodaeth yn unig | Ar gyfer rhieni/gofalwyr, ond gallai ymarferwyr dynnu sylw at y ffaith bod yr adnoddau hyn ar gael i rieni yn eu lleoliad neu yn eu hysgol | Gwybodaeth i rieni **am yr holl wybodaeth hanfodol a phwysig sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniadau gorau am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu plant**. Gellir ei arddangos ar fwrdd gwybodaeth neu drwy ddolen mewn cylchlythyr lleoliad/ysgol. | Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr |
|   Adnoddau Gwybodaeth i Rieni \| Pob Plentyn (pobplentyn.cymru) | 0-2 oed | Gwybodaeth yn unig | Ar gyfer rhieni/gofalwyr, ond gallai ymarferwyr dynnu sylw at y ffaith bod yr adnoddau hyn ar gael i rieni yn eu lleoliad neu yn eu hysgol | Gwybodaeth i rieni **am yr holl wybodaeth hanfodol a phwysig sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniadau gorau am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu plant**. Gellir ei arddangos ar fwrdd gwybodaeth neu drwy ddolen mewn cylchlythyr lleoliad/ysgol. | Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol<br>Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru – Llwybrau Datblygu 0 i 3<br>Beth yw hawliau plant: canllawiau i rieni a gofalwyr |

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51404
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg